Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Maenclochog
# Neuadd Gymunedol
# Maenclochog
# SA66 7LB

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/01/2019**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Maenclochog. Mae'n cwrdd yn neuadd gymunedol Maenclochog, yn awdurdod lleol Sir Benfro. Mae'r lleoliad yn darparu addysg am bedwar bore'r wythnos, o ddydd Llun i ddydd Iau, rhwng 9.00 y bore a 11.30 y bore yn ystod tymhorau'r ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 24 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a phedair blwydd oed. Ar hyn o bryd, mae wyth o'r plant tair blwydd oed yn cael eu hariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar.

Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac mae ychydig o'r plant yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi dau ymarferydd cymwysedig gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 2018.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Mai 2017. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Chwefror 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn
- y rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) effeithiol
- y rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn gyfrifol a chwrtais
- ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu diddorol i sbarduno dysgu'r plant yn llwyddiannus
- addysgu difyr yn gwella deilliannau'r plant yn gadarnhaol
- y ddarpariaeth effeithiol a'r modelu bwriadus o'r iaith Gymraeg
- gofal cadarn a synhwyrol yr ymarferwyr yn creu awyrgylch hapus a chymdeithasol
- amgylchedd dysgu pwrpasol yn ennyn diddordeb y plant yn ddeallus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn gosod cyfeiriad cadarn a chlir i waith y lleoliad
- gweithdrefnau arfarnu yn creu targedau dilys i weithredu ar wella safonau'r plant
- hyfforddiant yr ymarferwyr yn effeithiol ac yn dylanwadu'n fuddiol ar y ddarpariaeth er lles y plant
- defnydd cydwybodol a defnyddiol o wasanaethau cymorth ac arbenigol
- cefnogaeth weithredol a bwriadus gan y pwyllgor rheoli
- partneriaethau cadarn gyda'r rhieni a'r gymuned leol
- y pwyllgor rheoli newydd yn dechrau monitro a chefnogi'r lleoliad yn fwriadus

## Argymhellion

A1 Meithrin parodrwydd y plant i ddyfalbarhau a chwblhau tasgau'n annibynnol

A2 Creu cydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau sydd dan gyfarwyddyd y plant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion

A3 Gwella'r defnydd o ganfyddiadau'r asesu i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol

A4 Sicrhau bod arferion monitro, gwerthuso a rheoli cyllid y pwyllgor rheoli yn drylwyr

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae llawer yn ddeallus ynglŷn â'u gwaith dyddiol ac, o'r herwydd, yn dysgu'n dda. Mae'r rhan fwyaf yn datrys heriau a thasgau ar draws y meysydd dysgu yn effeithiol ac, o ganlyniad, maent yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn llwyddiannus.

Mae llawer o'r plant yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn frwdfrydig i holi gan yr ymarferwyr yn yr adeilad a thu allan. Gan ystyried mannau cychwyn isel llawer o blant yn y Gymraeg, mae'r mwyafrif yn dechrau defnyddio patrymau iaith cywir ac ymadroddion cyfarwydd yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn trafod nodweddion y tywydd a digwyddiadau mewn storïau yn hyderus, fel anturiaethau dewin a'i gi. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau yn ystyrlon ac yn canu hwiangerddi a chaneuon yn y Gymraeg yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r mwyafrif yn meistroli medrau llafar cynnar mewn amser buan.

Mae llawer o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn ystyried diben y stori, y lluniau a phwrpas yr ysgrifen yn dda. Maent yn ailadrodd trefn storïau yn ddeallus a rolau'r cymeriadau yn ddoeth. Er enghraifft, maent yn trafod nodweddion cymeriadau cyfarwydd yn dda, gan ddeall bod y cadno yn achosi perygl i fywydau ieir. Mae llawer o'r plant yn trin a thrafod llyfrau yn yr ardal ddarllen fel darllenwyr cynnar awyddus.

Mae llawer o'r plant yn creu marciau yn effeithiol wrth arbrofi â gwahanol gyfryngau. Maent yn dyfalbarhau â phrofiadau ysgrifennu cynnar yn ddiwyd. Er enghraifft, maent yn defnyddio sialc ar lawr yr ardal allanol i greu rhifau, llythrennau a siapiau ac yn cymryd archebion wrth ei gilydd ar bapur yn y caffi chwarae rôl. Mae llawer yn arbrofi gydag ysgrifennu cynnar ac yn deall ei bwrpas wrth olrhain llythrennau o'u henwau a rhifau yn y blychau tywod. Mae llawer o'r plant yn adnabod llythrennau o'u henwau eu hunain yn rheolaidd wrth hunangofrestru a gosod y bwrdd byrbryd.

Mae llawer o'r plant yn adnabod, yn enwi ac yn cyfrif rhifau i bump heb gymorth oedolyn yn hyderus. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol wrth iddynt drafod siapiau a'u cymharu, a rhifo gwrthrychau o wahanol liwiau i mewn i bowlenni lliw. Yn ogystal, maent yn rhifo pegiau ar fyrddau yn gywir a chyfatebu rhifau yn bwrpasol i gyfarpar mathemategol. Mae ychydig ohonynt yn cyfrif â chywirdeb i ddeg a thu hwnt heb anogaeth ac yn rhifo'n bwyllog o ddeg i lawr i un gyda chefnogaeth oedolyn.

Mae ychydig o'r plant yn deall sut i ddechrau bondio rhifau at bump yn effeithiol, gan ddefnyddio eu bysedd eu hunain a thrwy drefnu gwrthrychau fel blociau adeiladu. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio iaith a chysyniadau mathemategol yn bwrpasol mewn gweithgareddau ymarferol. Er enghraifft, maent yn deall y gwahaniaethau mewn maint cylchoedd ac os ydynt yn 'fach', yn 'fawr', neu'n 'ganolig', ac yn 'llai' neu'n 'fwy' na'i gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio technoleg yn effeithiol wrth ddefnyddio tiliau, teganau a llechi electronig mewn gweithgareddau bob dydd. Maent yn defnyddio meddalwedd addysgol ac apiau amrywiol yn effeithiol. Mae hyn yn datblygu eu medrau meddwl, TGCh, rhifedd a llythrennedd yn gadarn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth yn astud ac maent yn perfformio'n frwdfrydig wrth ganu hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd. Mae llawer yn dewis offer a deunyddiau yn bwrpasol i ymestyn eu creadigrwydd. Er enghraifft, maent yn arbrofi â thoes a halen i greu canhwyllbrennau a phrintio ar bapur â phaent gydag afalau. Yn ogystal, maent yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol wrth yrru beiciau'n fywiog yn yr ardal allanol, dringo'n frwdfrydig a llithro'n fentrus ar gyfarpar anturus yn yr ardal allanol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad. Mae llawer yn diddori yn eu gwaith wrth ymateb i weithgareddau difyr ac yn rhannu adnoddau a gweithio'n synhwyrol gyda'i gilydd. Mae llawer yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd, fel arbrofi â dŵr trwy ddefnyddio cafnau a phlannu blodau mewn potiau yn yr ardal dyfu. Fodd bynnag, ar adegau, mae ychydig o'r plant yn dangos diffyg parodrwydd i ddyfalbarhau a chwblhau tasgau'n annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau mynegi barn a'u hoffterau personol yn dda. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt ddewis tasgau penodol neu ddechrau ar weithgareddau newydd o'u dewis eu hunain, fel gludo papur gyda'i gilydd i greu aderyn coch. Mae llawer yn esbonio pa feysydd dysgu sy'n cynnwys eu hoff weithgareddau yn synhwyrol, fel yr ardal adeiladu, y trenau a'r caffi chwarae rôl. Maent yn awyddus i blesio ac yn dal sylw'r oedolion yn dda, er enghraifft wrth daro offer y gegin tu allan i greu cerddoriaeth amrwd a chanu rhigymau cyfarwydd yn frwdfrydig. O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn gyfranogwyr hyderus, sy'n dysgu'n gynhyrchiol yn ystod gweithgareddau chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais. Maent yn dangos parch wrth ymateb yn gyfrifol i oedolion a'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ar oedolion, er enghraifft wrth iddynt aros eu tro i wisgo'u cotiau a llinellu'n dawel i gerdded i'r ardal allanol. Mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr heb lawer o anogaeth gan ymarferwyr ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae anniben a gweithgareddau awyr agored. Maent yn deall bod glendid yn bwysig i osgoi heintiau drwg ac yn rhan annatod o gynnal bywydau iachus.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferydd yn cydweithio'n bwrpasol gyda'i gilydd i ddarparu gweithgareddau diddorol a dychmygus ar draws yr holl feysydd dysgu. Maent yn darparu cwricwlwm ysgogol, sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn ddeallus. Mae eu cynllunio o brofiadau difyr yn ennyn diddordeb y plant yn effeithiol. Mae hyn yn creu dysgwyr brwdfrydig ar y cyfan, sy'n gweithio'n ddiwyd yn yr adeilad a thu allan. Er enghraifft, maent yn cymell y plant i ddysgu'n ymarferol trwy chwarae rôl

wrth y gegin fwd ac adeiladu parlwr godro ar y fferm yn ardal y byd bach. O ganlyniad, mae'r cynllunio o ran profiadau dysgu yn drwyadl ac yn targedu diddordebau'r plant yn llwyddiannus.

Mae'r holl ymarferwyr yn trafod cynnydd plant unigol mewn cyfarfodydd rheolaidd, ac yn trefnu themâu a gweithgareddau ar sail hyn. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant leisio eu syniadau personol i gyfoethogi'r gweithgareddau ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys peintio deinosoriaid wrth isl a defnyddio brwshys i greu llythrennau, rhifau a siapiau gyda dŵr ar y wal tu allan. Mae'r gweithgareddau hyn yn ychwanegu'n gadarnhaol tuag at frwdfrydedd dyddiol y plant wrth iddynt ddysgu trwy chwarae a phrofiadau eang.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a medrau meddwl y plant yn dda. Mae gweithgareddau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn herio'r plant i berfformio ar eu gorau'n gyson. Enghreifftiau ymarferol ac effeithiol o hyn yw wrth i blant drafod nodweddion blodau gwahanol gyda chwyddwydrau a defnyddio apiau addysgol yn hyderus ar lechen electronig. O ganlyniad, mae'r profiadau dysgu sydd ar gael yn ddyddiol yn gadarn ac yn datblygu medrau'r plant yn bwrpasol.

Mae defnydd yr ymarferwyr o'r iaith Gymraeg yn fuddiol i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn fodelau cyson dda o'r iaith. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio'r iaith cymaint ag y bo modd trwy weithgareddau diddorol a thrwy atgyfnerthu geirfa a phatrymau iaith yn rheolaidd. Maent yn herio a holi'r plant yn bwrpasol yn yr ardaloedd dysgu dan do a'r awyr agored. O ganlyniad, mae dealltwriaeth llawer o'r plant o'r iaith yn datblygu'n gadarn ac maent yn ymateb â geirfa ac ymadroddion cyfarwydd yn fuan ar ôl dechrau yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, coginio cawl a chacennau traddodiadol a thrwy weithgareddau am rasys lleol dros mynyddoedd y Preseli.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol y plant yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i blant gydbwyso ar gerrig stepio, cropian drwy dwneli a thaflu peli yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau creadigol y plant, fel gadael iddynt arbrofi gyda sialc, creonau, paent a dŵr i wneud marciau. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, mae profiadau, fel ymweliadau â chaffi'r pentref, cofeb y rhyfeloedd a'r parc cyfagos i gasglu afalau, yn atgyfnerthu'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae ymwelwyr fel yr heddlu, y ficer a ffermwyr ag ŵyn a chŵn yn addysgu'r plant yn bwrpasol am rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n bwrpasol ac yn cyfarch y plant yn gynnes wrth iddynt gyrraedd y lleoliad. Maent yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ofynion ac athroniaeth y cyfnod sylfaen. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn effeithiol ac yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i'r plant gyfrannu'n ystyrlon i'w dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn holi'r plant yn llwyddiannus i ddatblygu eu medrau cyfathrebu a'u medrau rhifedd. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i ddefnyddio tafol i gydbwyso arian a llysiau yn llwyddiannus ac yn toddi creonau ar bwmpen gyda sychwyr gwallt i greu patrymau anarferol. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r ymarferwyr yn dueddol o ymyrryd yn ormodol yn ystod gweithgareddau, sy'n cyfyngu dysgu annibynnol y plant. O ganlyniad, nid oes cydbwysedd synhwyrol bob tro rhwng gweithgareddau sydd dan gyfarwyddyd y plant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ac yn darparu ystod eang o gyfleoedd i blant ddefnyddio cyfarpar ac adnoddau'n bwrpasol yn ystod profiadau ymarferol wrth iddynt chwarae. Mae ganddynt ddisgwyliadau cadarn ar gyfer y plant ac maent yn eu herio i wella'u gwaith yn gyson. Mae'r cyflwyniadau i sesiynau torfol a thasgau ffocws yn brysur ac yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth y plant yn fwriadus.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn rheolaidd ac yn bwrpasol. Maent yn cwblhau cofnodion cyson yn drwyadl ac yn annog y plant i asesu eu dysgu eu hunain yn effeithiol ar lafar. Yn ogystal, maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau asesu yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio tasgau i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn eu cynllunio.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant. Mae'r deialog dyddiol rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr ac adroddiadau a thystiolaeth o gynnydd y plant yn atgyfnerthu hyn cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae'r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau synhwyrol i annog y plant i gyfarch ei gilydd, gweddïo, myfyrio am deimladau eraill a dweud diolch yn llwyddiannus.

Mae dulliau synhwyrol yr ymarferwyr i feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch ymysg y plant yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw'r arfer o bennu 'helpwr y dydd', sy'n nodi dyletswyddau i unigolion ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn eu tro. O ganlyniad, mae'r plant yn cael cyfle i dywallt diod, gosod llestri a gweini i'w gilydd o amgylch y bwrdd bwyta yn ddyddiol, heb ormod o ymyrraeth gan ymarferwyr.

Mae gan yr ymarferwyr drefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol y plant ac yn cefnogi eu dysgu'n llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn darparu gweithgareddau i gyflymu'r galon yn yr ardal allanol trwy yrru beiciau a chyfleoedd i redeg yn frwdfrydig o gwmpas y neuadd yn igam-ogam rhwng cyfarpar. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau a llysiau'n rhan o ddiet synhwyrol. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, plastig a bwyd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn bwrpasol.

Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw aflonyddwch neu ymddygiad annerbyniol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion ac maent yn barod iawn i ofyn am gymorth a chefnogaeth. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn drwyadl pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad, ac yn ystod eu cyfnod yno. Mae'r arweinydd yn cydlynu unrhyw ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol y plant ac yn adolygu cynnydd y plant yn rheolaidd gyda'r ymarferwr arall a swyddog yr awdurdod lleol. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn trafod plant anghenus gyda'r asiantaethau priodol, fel y lleferydd iaith, i ddarparu cymorth cyn gynted ag y bo modd, i dargedu eu hanghenion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos cefnogol drwy weithgareddau dyddiol effeithiol a'r agweddau cadarnhaol a fabwysiadir gan yr ymarferwyr. Mae'n gymuned gynhwysol ac mae'r plant yn cael mynediad cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r offer. Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth dda o anghenion y plant ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod yn llwyddiannus trwy drafodaethau dyddiol.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus trwy ddathlu gwyliau penodol fel y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd a Diwali. Yn ogystal, mae'r lleoliad yn defnyddio gwahanol straeon yn synhwyrol i hyrwyddo gwahaniaethau diwylliannol yn bwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio adnoddau'n llwyddiannus i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant. Maent yn sicrhau bod adnoddau o fewn cyrraedd y plant ac mae'r plant yn gallu cyrraedd y cyfarpar heb drafferth. Mae hyn yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn llwyddiannus, wrth iddynt drafod llyfrau, defnyddio cyfarpar i adeiladu ac ymchwilio a gwneud marciau gyda gwahanol gyfryngau. O ganlyniad, caiff ystod eang yr adnoddau eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu.

Mae'r adeilad o ansawdd da, yn cael ei gynnal yn rheolaidd ac mae'n ddiogel. Mae'r ardal allanol ddiddorol yn cael ei defnyddio'n bwrpasol. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardal leol yn ddeallus i atgyfnerthu'r cwricwlwm, er enghraifft wrth ymweld â busnesau'r pentref.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Yn dilyn ei phenodiad diweddar, mae'r arweinydd wedi sicrhau bod arferion arweinyddiaeth a rheolaethol y lleoliad yn brif ffocws i'w gwaith. Mae'n cydweithio'n dda â'r ymarferwraig arall ac maent wedi creu newidiadau buddiol a chadarnhaol mewn amser byr. Maent yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a rheolaidd i wella ansawdd, i sicrhau gwelliannau i'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. O ganlyniad,

mae'r arweinydd yn dechrau sefydlu gweithdrefnau arweinyddiaeth cadarn i hyrwyddo a chynnal gwelliannau. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn wedi cael digon o amser i sefydlu'n gadarn a chynnar yw effaith y gwaith brwdfrydig a deallus.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol ac yn bwrpasol. Mae gan yr ymarferwyr gyfrifoldebau a dyletswyddau clir ac maent yn gweithredu ar y rhain yn gydwybodol er mwyn hyrwyddo llwyddiannau yn y lleoliad. Caiff ymarferwyr hyfforddiant perthnasol ac addysgiadol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r arweinydd wedi dechrau'r weithdrefn o oruchwyliaethau ac arfarniadau effeithiol o'r ymarferwraig arall ac mae'r pwyllgor rheoli newydd yn dechrau arfarnu gwaith yr arweinydd yn fwy cyson.

Mae'r arweinydd yn dilyn canllawiau a chyngor yr awdurdod lleol yn effeithiol, er enghraifft ar sut i gynllunio cwricwlwm eang a chytbwys. O ganlyniad, mae cyfeiriad cadarnhaol i'r gweithgareddau dyddiol a phrosesau hirdymor y lleoliad. Yn ogystal, mae hi a'r pwyllgor rheoli yn gweithio'n glòs gyda'r swyddog Mudiad Meithrin i sefydlu cadernid yn y strwythur rheoli a'r rheolaeth ar gyllid.

Mae'r pwyllgor rheoli yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am arferion y lleoliad o ddydd i ddydd gan yr arweinydd ac mewn cyfarfodydd rheolaidd. Maent yn newydd iawn i'w rolau ac wedi creu arferion buddiol i fesur ansawdd y ddarpariaeth mewn amser byr. O ganlyniad, maent yn synhwyrol a chydwybodol ac yn dechrau effeithio ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant yn dda. Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol ac wedi rhoi camau pwrpasol ar waith i adfer gorwariant blaenorol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau newydd hyn wedi cael amser i wreiddio a sicrhau digon o sefydlogrwydd yn y sefyllfa ariannol hyd yn hyn.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso mewn amser byr. Mae'r gweithdrefnau newydd yn weithredol ac mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn cydweithio'n bwrpasol i greu gwelliannau. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau hunanwerthuso yn arwain at nodi cryfderau'r lleoliad yn effeithiol ac mae'r cynllun datblygu yn targedu'r meysydd i'w gwella yn fwriadus.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli wedi sefydlu trefniadau effeithlon i fonitro safonau'r plant a'r ddarpariaeth. Mae'r cydweithio cydwybodol sy'n weladwy'n ddyddiol, ynghyd â'r cyfarfodydd cyson diweddar, yn cyfrannu at hyn yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau hunanwerthuso yn ystyried barnau'r ymarferwyr, y plant, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn synhwyrol. Mewn amser byr, mae'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithdrefnau newydd yn adeiladu darlun clir o waith y lleoliad a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r arweinydd yn cymryd camau pwrpasol i gynnal arferion rheolaidd a rhoi newidiadau ar waith drwy gynlluniau datblygu effeithiol. Mae hi a'r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn unol â'r camau a nodwyd ar gyfer gwella yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn gwella'r ddarpariaeth trwy fabwysiadu gwahanol strategaethau a derbyn cyngor gwerthfawr gan bobl eraill. Er enghraifft, maent wedi ymateb i ddisgwyliadau cenedlaethol yn llwyddiannus fel rhoi proffil y cyfnod sylfaen ar waith a thargedu gorwariant yn bwrpasol i greu lleoliad cynaliadwy.

Mae’r arweinydd a’r pwyllgor rheoli yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi â gwahanol strategaethau i lwyddo. Maent yn barod iawn i dderbyn awgrymiadau gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Er enghraifft, mae’r cyngor ar sut i fonitro’r ddarpariaeth a sut i ddatblygu’r heriau ar draws y meysydd dysgu yn gwbl weithredol erbyn hyn. O ganlyniad, maent wedi gwella’u harferion yn gadarnhaol er lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r lleoliad yn gweithio’n effeithiol gyda phartneriaid i wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r plant. Mae’r arweinydd yn cymryd camau bwriadus i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae’r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad, sy’n cynnwys defnydd da o gyfryngau cymdeithasol. Maent hefyd yn eu hannog i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron, bocs syniadau yn y cyntedd a thrafodaethau cyson.

Mae cydweithrediad synhwyrol yn bodoli gydag asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin ac mae’r cydweithio cadarnhaol yn atgyfnerthu gwaith y lleoliad yn dda. O ganlyniad, maent yn cefnogi’r hyfforddiant a’r ddogfennaeth reolaethol yn bwrpasol a gweithredol.

Mae’r lleoliad yn gweithredu partneriaethau cadarnhaol a defnyddiol gyda’r ysgol. Mae’r trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth, wrth i’r plant ddechrau ac ymgartrefu yn yr ysgol, yn effeithiol. Maent yn cydweithio’n dda i ddatblygu profiadau diddorol fel cymryd rhan ym mabolgampau’r ysgol. Yn ogystal, mae’r bartneriaeth â busnesau’r pentref yn bwrpasol ac mae’r ymweliadau addysgol iddynt yn cefnogi dysgu’r plant yn ddeallus.

Mae’r ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy’n gwneud cyfraniad pwysig i wella’r ddarpariaeth. Mae’r rhain yn cynnwys asiantaethau sy’n cefnogi’r lleoliad gyda hyfforddiant fel cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, datblygiadau’r cyfnod sylfaen a hyfforddiant diogelu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r arweinydd a’r pwyllgor rheoli yn sicrhau cydweithio effeithiol. Maent yn anelu’n gyson tuag at wella pob agwedd ar waith y lleoliad trwy reoli staff, y cyllid ac adnoddau yn bwrpasol. Maent yn llwyddo i sicrhau bod gan y lleoliad y gymhareb gywir o ymarferwyr cymwys, gyda hyfforddiant cyflawn, i fodloni anghenion y plant yn dda. Gyda chefnogaeth y pwyllgor rheoli diwyd, maent yn dîm newydd, cadarn ac effeithiol.

Mae’r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn addas ac yn dechrau sicrhau bod y staff yn cynnig profiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu cadarnhaol i’r plant. Mae’r arweinydd a’r ymarferwraig gefnogol yn rhannu a datblygu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae’r lleoliad yn enghraifft effeithiol o gymuned ddysgu gadarnhaol, sydd â diwylliant o gydweithio bwriadus rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill.

Mae’r lleoliad yn rheoli adnoddau yn greadigol i gefnogi’r dysgu. Mae hyn yn cynnwys y defnydd doeth o’r ardal allanol ar gyfer gweithgareddau corfforol, creadigol, ymholi ac ymchwiliadol.

Mae gan yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth gadarn o'r gyllideb a’r heriau sydd ynghlwm â chynnal cyllid y lleoliad. Erbyn nawr, maent yn blaenoriaethu gwariant yn ofalus gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser synhwyrol. Maent yn creu gwelliannau cyson trwy drafod ac ariannu cynlluniau i wella yn bwrpasol. O ganlyniad, yn ddiweddar, mae’r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau’r plant.

O ystyried safonau cadarn y plant, y ddarpariaeth effeithiol a’r arweinyddiaeth bwrpasol, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |